

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 21 Hydref, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood; a M. Evans (Aelod Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey a L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y TÎM DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (CYF) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad ar y sail bod y Gyfarwyddiaeth yn monitro'r straen ariannol y gellir ei roi ar yr Awdurdod pe byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei leihau.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD HUNANASESU BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL BRO MORGANNWG (CYF) –

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) BOD y Cabinet yn ystyried sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r sylwadau yn ymwneud â:

- Mewn perthynas ag ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol a'r defnydd o'r polau cyfryngau cymdeithasol, ystyried eu perthnasedd.
- Roedd y defnydd o dablau cyllideb i egluro sut mae'r Cyngor yn gwario ei arian yn ddefnyddiol iawn a dylid rhoi mwy o gyhoedduswydd iddynt, ond roedd angen hypergysylltiadau ar wahân i'r tablau hefyd;
- Cynhyrchu fersiwn gryno mewn iaith glir o'r ddogfen ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

EITEM AGENDA 6. DIWEDDARIAD CHWARTER 2 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (PW) –

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi sylwadau Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor a'r Cabinet mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- (2) Nodi sefyllfa Chwarter 2 o Risgiau Corfforaethol (Ebrill 2024 - Mawrth 2025), fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Cryno o Risgiau (Atodiad A i'r adroddiad).
- (3) Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cabinet. Y sylwadau yw:
 - Y dylai caffael gael ei wahanu oddi wrth y Risg Adnoddau Ariannol a bod yn risg annibynnol ar y Gofrestr Risg Corfforaethol;
 - Bod sgôr y Risg Adnoddau Ariannol yn cael ei ailystyried ac a oedd yn cyfiawnhau sgôr risg uwch;
 - Bod y Cabinet a Thîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor yn edrych ar Risg System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a'r Risg Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur fel mater o frys.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (3) Rhoi gwybod i'r Cabinet am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

EITEM AGENDA 7. CYNNIG I DDIWYGIO POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW 2024/25 (CAC) –

PENDERFYNWYD – Gohirio'r adroddiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn caniatáu dadansoddiad o'r oes asedau cyfartalog a'r polisïau a

fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol eraill.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR
LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24 (PGAMR) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023/24 yn amodol ar ddiwygio paragraff 4.4.1 i egluro nad oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried yr holl adroddiadau archwilio ond dim ond y rheini â sicrwydd cyfyngedig.

(2) Bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023/24 yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac i'w cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

EITEM AGENDA 9. DIWEDDARIAD AR BROSIECT CYFALAF YSGOL
STANWELL (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno ar y camau a gymerwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol yn dilyn y gwaith pellach a wnaed.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 10. BARN GYFYNGEDIG DILYNOL ARCHWILIO MEWNOL
(PGAMR) –

PENDERFYNWYD – Nodi'r camau adferol a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Mewnol 2021 a 2024 a bod Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu yn adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu sy'n weddill yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 24 Mawrth, 2025.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 11. RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2024/25 (PGAMR) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddarau.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.